Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETHOL DEMENTIA:

# Cysylltwyr Dementia

**Mae bod yn gysylltiedig â'ch cymuned a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnoch yn hanfodol bwysig.**

**I wneud hyn rydyn ni'n treialu rôl cysylltydd dementia ar draws ein rhanbarth i gefnogi pobl i wneud y cysylltiadau â gwasanaethau a'u cymuned i helpu eu hiechyd a'u llesiant.**



## BETH SY'N BWYSIG I BOBL Â DEMENTIA?

Dywedodd pobl â dementia a'u gofalwyr wrthym fod angen cymorth arnyn nhw i gael yr hyn yr oedd ei angen arnynt yn dilyn eu diagnosis.

Maen nhw eisiau cael eu cysylltu â'r gwasanaethau a'r cymunedau a all eu helpu i aros yn annibynnol a chael iechyd corfforol a meddyliol da.

"Mae'n gas gen i'r term hunangymorth. Dwi angen help i wybod sut i helpu fy hun. Dydych chi ddim yn gwybod beth dydych chi ddim yn gwybod."

## BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

Rydyn ni eisiau gwella profiad pobl yn dilyn diagnosis dementia. Buon ni'n gweithio gyda'n cymunedau i nodi beth oedd angen i'r rôl cysylltydd dementia ei gyflawni ar draws ein rhanbarth.

**Ein bwriad yw cyflawni hyn drwy:**

- Cyflogi nifer o gysylltwyr dementia ar draws Cwm Taf Morgannwg (yn cael ei redeg fel peilot i ddechrau).
- Gwerthuso'r rôl gyda phobl yr effeithir arnynt gan ddementia i wella eu profiadau.
- Cefnogi pobl i gynllunio ar gyfer eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'n cymunedau i werthuso'r rôl a gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen o ganlyniad.



## PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

**Bydd cysylltydd dementia yn sicrhau bod:**

1. Pobl wedi'u cysylltu â rhwydweithiau cymorth lleol (a allai gynnwys cymorth gan gymheiriaid).
2. Gall pobl gael mynediad at gyngor ariannol ac ymarferol ar ba addasiadau y gellid eu gwneud i'w ffordd o fyw neu eu hamgylchedd i'w helpu i aros mor ffit ac iach â phosibl.
3. Gall pobl gynllunio ar gyfer bywyd hwyrach
4. Mae pobl yn gysylltiedig â mathau eraill o gymorth sydd ar gael o'u cwmpas.

**DYWEDODD POBL**

**Allwch chi ddim cael cefnogaeth dda heb wybodaeth am beth sydd ei angen ar bobl o'u safbwynt nhw."**